COFNODION CYFARFOD O'R PWYLLGOR CYNLLUNIO A GYNHALIWYD YN SIAMBR Y CYNGOR, NEUADD Y DREF AR DYDD LLUN, 3 MEHEFIN 2019

AELODAU

Y Cynghorydd M G Morris, Cadeirydd
Y Cynghorydd Marc Jones, Is-Gadeirydd

Y Cynghorydd		Bryan Apsley	Y Cynghorydd		John McCusker
“		I David Bithell, MBE	“		Beverley Parry-Jones
“		Michael Dixon	“		Paul Pemberton
“		Frank Hemmings	“		John Phillips
“		Adrienne Jeorrett	“		Ronnie Prince
“		Gwenfair Jones	“		John Pritchard
“		Paul Jones	“	*	Paul Roberts
“		David Maddocks	“		Graham Rogers
“	*	Tina Mannering	“	*	Andy Williams

*Yn absennol

Hefyd yn bresennol – Y Cynghorwyr Hugh Jones

1 YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB

Cyflwynwyd ymddiheuriadau am absenoldeb ar ran y Cynghorwyr Tina Mannering, Paul Roberts ac Andy Williams.

2 DATGANIADAU O GYSYLLTIADAU PERSONOL, OS OES RHAI

Atgoffwyd yr Aelodau am eu cyfrifoldeb, o dan Erthygl 11 o God Ymddygiad yr Aelodau, i ddatgan unrhyw gysylltiad mewn perthynas ag unrhyw un o'r materion i'w trafod yn y cyfarfod hwn. Gwnaed y datganiadau canlynol:

Eitem 4 ar y Rhaglen – Ceisiadau Rheoli Datblygu
Y Cynghorydd Graham Rogers – Cysylltiad Personol – Cais Rhif P/2019/0255 – yn un o gleifion y Ddeintyddfa.

Y Cynghorydd Marc Jones – Cysylltiad Personol a Chysylltiad sy’n Rhagfarnu – Cais Rhif P/2019/0234 – yn adnabod yr Asiant.
Gadawodd y Cynghorydd y cyfarfod, heb gymryd rhan yn y drafodaeth na phleidleisio wedi hynny.

Y Cynghorydd Michael Morris – Cysylltiad Personol a Chysylltiad sy’n Rhagfarnu – Cais Rhif P/2019/0255 – yn un o gleifion y Ddeintyddfa.
Gadawodd y Cynghorydd y cyfarfod, heb gymryd rhan yn y drafodaeth na phleidleisio wedi hynny.

Y Cynghorydd Gwenfair Jones – Personol – Cais Rhif P/2019/0234 – yn adnabod yr Asiant.
Arhosodd y Cynghorydd yn y cyfarfod gan gymryd rhan yn y drafodaeth a

phleidleisio wedi hynny.

Y Cynghorydd John C Phillips – Cysylltiad Personol a Chysylltiad sy'n Rhagfarnu – Cais Rhif P/2019/0307 – yn perthyn o bell i rywun sy'n byw mewn eiddo gerllaw. Gadawodd y Cynghorydd y cyfarfod, heb gymryd rhan yn y drafodaeth na phleidleisio wedi hynny.

3 CADARNHAU COFNODION

Cyflwynwyd cofnodion y cyfarfodydd a gynhaliwyd ar 7 Mai ac 17 Mai.

Cywiro'r Cofnodion:
7 Mai 2019 – Cofnod 69 – Datgan Cysylltiadau Personol. Gadawodd y Cynghorwyr Adrienne Jeorrett a Ronnie Prince y cyfarfod, heb gymryd rhan yn y drafodaeth na phleidleisio wedi hynny.

17 Mai 2019 – Cofnod 69 – roedd y Cynghorydd Paul Jones wedi'i farcio'n absennol.

PENDERFYNWYD – yn amodol ar y newidiadau a nodwyd uchod, bod Cofnodion y Cyfarfodydd a gynhaliwyd ar 7 Mai ac 17 Mai 2019 yn cael eu llofnodi fel cofnod cywir.

4 CEISIADAU RHEOLI DATBLYGU

Cyflwynodd y Prif Swyddog Cynllunio a Rheoleiddio adroddiad (COPR/11/19) i benderfynu ar y ceisiadau cynllunio a restrwyd. Tynnwyd sylw at yr atodiad i'r adroddiad lle'r oedd hynny'n berthnasol.

5 CAIS RHIF: P/2018/0632 A P/2018/0633 - BEECH COTTAGE, ALLT MERFFORDD, MERFFORDD, WRECSAM

Siaradodd gwrthwynebydd yn erbyn y cais.

Wedi i'r Cadeirydd ddefnyddio'i bleidlais fwrw –

PENDERFYNWYD – CYMERADWYO'R cais yn unol ag argymhelliad y Prif Swyddog Cynllunio a Rheoleiddio fel y nodwyd yn adroddiad COPR/11/19.

6 CAIS RHIF: P/2018/0685 - EAST VIEW FARM, GOLLY, YR ORSEDD, WRECSAM

PENDERFYNWYD – CYMERADWYO'R cais yn unol ag argymhelliad y Prif Swyddog Cynllunio a Rheoleiddio fel y nodwyd yn adroddiad COPR/11/19.

7 CAIS RHIF: P/2018/0776 - LODGE FARM, ODDI AR FFORDD BORRAS, COMMONWOOD, WRECSAM

Siaradodd gwrthwynebydd yn erbyn y cais.

Mynegodd yr Aelod Lleol (y Cynghorydd Hugh Jones) bryderon ynglŷn â sŵn, a soniodd i Aelodau'r Pwyllgor ei fod wedi derbyn nifer o gwynion am hynny, a'r effaith bosib ar y Cynelau Cŵn gerllaw.

Mewn ymateb, cadarnhaodd Rheolwr Gwasanaeth Gwarchod y Cyhoedd na fyddai'r sŵn yn uwch na'r lefelau argymelledig, ond cyfeiriodd yr Aelodau at yr amodau a gynigiwyd yn yr adroddiad.

PENDERFYNWYD – GWRTHOD y cais.

Rheswm
Oherwydd tanio gynnau mor aml ar y maes tanio a gynigir, byddai'r sŵn a'r clecian yn peri poendod ac aflonyddwch i bobl o fewn clywed ar eiddo gerllaw, ac yn amharu ar eu hamwynder. Byddai caniatáu'r datblygiad arfaethedig yn groes i Bolisi GDP1 (f) yng Nghynllun Datblygu Unedol Wrecsam fel y'i mabwysiadwyd.

Gallai'r datblygiad arfaethedig gynyddu llif y traffig drwy fynedfa gerbydau sydd islaw'r safon. Mae gweledegd tua'r dwyrain yn wael ac mae'n bell islaw'r safonau a bennir gan Lywodraeth Cymru yn NCT18. Byddai caniatáu'r datblygiad yn groes i bolisi GDP1 (d) yng Nghynllun Datblygu Unedol Wrecsam.

8 CAIS RHIF: P/2018/0863 - DRILL HALL HOUSE, RHODFA'R ORSAF, Y WAYN, WRECSAM

Siaradodd aelod o'r cyhoedd yn erbyn y cais.

Mynegwyd pryder ynglŷn â lleoliad y llofft colomennod a thrafferthion o ran sŵn yr adar, eu drewdod a'u baw.

PENDERFYNWYD – Trefnu YMWELIAD SAFLE i Aelodau'r Pwyllgor weld safle'r cais cyn i'r Pwyllgor benderfynu ar y cais.

Rheswm dros yr Ymweliad: Ystyried effaith y datblygiad arfaethedig ar eiddo preswyl y tu ôl i'r safle.

9 CAIS RHIF: P/2019/0126 - CARTREF NYRSIO PARC PENDINE, FFORDD BRYNHYFRYD, STANSTY, WRECSAM

Siaradodd yr Ymgeisydd o blaid y cais.

Hysbysodd yr Aelod Lleol (y Cynghorydd Gwenfair Jones) Aelodau'r Pwyllgor ei bod wedi ymadael â chyfarfod Cyngor Cymuned Gwersyllt pan drafodwyd y cais hwn yn ddiweddar, a hithau'n aelod o'r Pwyllgor Cynllunio. Nodwyd hefyd fod y safle yng

Ngwersyllt yn hytrach na Brynhyfryd.

PENDERFYNWYD – CYMERADWYO'R cais yn unol ag argymhelliad y Prif Swyddog Cynllunio a Rheoleiddio fel y nodwyd yn adroddiad COPR/11/19.

10 CAIS RHIF: P/2019/0133 - TIR GWELLAW 22 PARK ROAD, CEFN BYCHAN, WRECSAM

PENDERFYNWYD – CYMERADWYO'R cais yn unol ag argymhelliad y Prif Swyddog Cynllunio a Rheoleiddio fel y nodwyd yn adroddiad COPR/11/19.

11 CAIS RHIF: P/2019/0164 - UNED 4 DE FFORDD CLYWEDOG, YSTAD DDIWYDIANNOL WRECSAM, WRECSAM

PENDERFYNWYD – CYMERADWYO'R cais yn unol ag argymhelliad y Prif Swyddog Cynllunio a Rheoleiddio fel y nodwyd yn adroddiad COPR/11/19.

12 CAIS RHIF: P/2019/0234 - HEN GYNELAU CWN GLENWYN, DELPH ROAD, ACREFAIR

(Mae datganiadau o gysylltiad Aelodau â'r eitem hon yng nghofnod 2 uchod)

PENDERFYNWYD – GWRTHOD y cais yn unol ag argymhelliad y Prif Swyddog Cynllunio a Rheoleiddio fel y nodwyd yn adroddiad COPR/11/19.

13 CADEIRIO'R CYFARFOD

Datganodd y Cynghorydd Michael Morris gysylltiad personol a chysylltiad sy'n rhagfarnu ac fe gamodd o'r Gadair. Bu'r Is-gadeirydd, y Cynghorydd Marc Jones, yn cadeirio ar gyfer yr eitem nesaf ar y Rhaglen.

(Y Cynghorydd Marc Jones yn Cadeirio)

14 CAIS RHIF: P/2019/0255 - 94 FFORDD RHIWABON, WRECSAM

(Mae datganiadau o gysylltiad Aelodau â'r eitem hon yng nghofnod 2 uchod)

Siaradodd cynrychiolydd yr Ymgeisydd o blaid y cais.

PENDERFYNWYD – CYMERADWYO'R cais yn unol ag argymhelliad y Prif Swyddog Cynllunio a Rheoleiddio fel y nodwyd yn adroddiad COPR/11/19.

(Y Cynghorydd Michael Morris yn Cadeirio)

15 CAIS RHIF: P/2019/0260 - 21 RHODFA PLAS ACTON, WRECSAM

PENDERFYNWYD – CYMERADWYO'R cais yn unol ag argymhelliad y Prif Swyddog Cynllunio a Rheoleiddio fel y nodwyd yn adroddiad COPR/11/19.

16 CAIS RHIF: P/2019/0282 - CANOLFAN GYMUNEDOL, LON Y PANT, GRESFFORDD, WRECSAM

PENDERFYNWYD – CYMERADWYO'R cais yn unol ag argymhelliad y Prif Swyddog Cynllunio a Rheoleiddio fel y nodwyd yn adroddiad COPR/11/19.

17 CAIS RHIF: P/2019/0307 - 16 ARLEY ROAD, PANDY, WRECSAM

(Mae datganiadau o gysylltiad Aelodau â'r eitem hon yng nghofnod 2 uchod)

Roedd Mr N Hughes wedi datgan ei fwriad i siarad yn erbyn y cais, ond gwnaeth gais drachefn i Mr Bob Dewey siarad ar ei ran.

PENDERFYNWYD – Trefnu YMWELIAD SAFLE i Aelodau'r Pwyllgor ystyried effaith y datblygiad arfaethedig ar eiddo preswyl y tu ôl i'r safle cyn i'r Pwyllgor benderfynu ar y cais.

Rheswm dros yr Ymweliad: Ystyried effaith y datblygiad arfaethedig ar yr anheddau gerllaw.

18 CAIS RHIF: P/2019/0325 - TIR AR FFERM MULSFORD, SARN, MALPAS

PENDERFYNWYD – CYMERADWYO'R cais yn unol ag argymhelliad y Prif Swyddog Cynllunio a Rheoleiddio fel y nodwyd yn adroddiad COPR/11/19.

19 CAIS RHIF: P/2019/0349 - Y BLACK HORSE INN, TOP ROAD, BRYNHYFRYD, WRECSAM

PENDERFYNWYD – CYMERADWYO'R cais yn unol ag argymhelliad y Prif Swyddog Cynllunio a Rheoleiddio fel y nodwyd yn adroddiad COPR/11/19.

Y Cynghorydd M G Morris
Cadeirydd